



Y RHWYDWAITH YMCHWIL
IECHYD MEWN YSGOLION

SCHOOL HEALTH
RESEARCH NETWORK

Lles pobl ifanc mewn gofal maeth yng Nghymru

Brîff Ymchwil Iechyd a Lles Ysgolion, Mawrth 2017

Mae astudiaethau yn y DU wedi canfod bod canlyniadau iechyd ac addysgol 'pobl ifanc sy'n derbyn gofal' (LAYP) yn waeth na rhai eu cyfoedion, ond mae tystiolaeth o Gymru yn gyfyngedig. Mae data o 2015 yn dangos yr oedd dros 5,500 o bobl ifanc mewn gofal eu hawdurdod lleol, ac roedd mwyafrif y bobl ifanc hyn yn byw mewn gofal maeth. Beth ydym ni'n ei wybod am iechyd a lles y bobl ifanc hyn?

Yr hyn rydym ni eisoes yn ei wybod...

Mae pobl ifanc mewn gofal maeth yn debygol o fod â hanes o gamdriniaeth cyn iddynt ddechrau derbyn gofal. Yng Nghymru, mae 66% o'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi dioddef camdriniaeth ac esgeulustod, ac 14% wedi dioddef diffyg teuluol.

Mae gan bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn y DU gyfraddau uwch o gamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwaeth, a lles is na phobl ifanc nad ydynt yn byw mewn gofal.

Gall perthnasoedd cymdeithasol iach, gan gynnwys gydag athrawon a chyfoedion yn yr ysgol, helpu i ddiogelu yn erbyn camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl gwaeth, ond mae pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o gael anhawster ffurfio perthnasoedd a dioddef bwlio yn yr ysgol.



Yr hyn a wnaethom...

- Defnyddiom ddata 28,838 o fyfyrwyr rhwng 11 ac 16 oed, a gymerodd ran yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr Cymru 2015/16.
- Dywedodd y myfyrwyr gyda phwy yr oeddent yn byw, a chawsant eu rhannu'n ddau grŵp: y rheiny a oedd yn byw mewn gofal maeth, a'r rheiny a oedd yn byw mewn teuluoedd dau riant, teuluoedd riant sengl neu lysdeuluoedd.
- Atebodd y myfyrwyr gwestiynau am eu defnydd o alcohol, baco a chyffuriau, a'u bodlonrwydd bywyd cyffredinol.
- Fe wnaethant raddio ansawdd eu perthnasoedd gyda'u hathrawon a'u ffrindiau, gan gynnwys gallu dibynnu ar eu ffrindiau, cael eu bwlio, a phrofiad o drais ar ddê.
- Fe wnaethom gymharu iechyd a lles myfyrwyr mewn gofal maeth â'r rheiny nad ydynt yn byw mewn gofal. Yna, fe ymchwiliom a oedd perthnasoedd gydag athrawon a chyfoedion yn gysylltiedig â'r gwahaniaethau rhwng y ddau grŵp.

Yn gryno

- Roedd myfyrwyr a oedd yn byw mewn gofal maeth yn fwy tebygol o ysmegu'n rheolaidd, yfed mewn pyliau, ac wedi defnyddio canabis o fewn y mis diwethaf.
- Roedd myfyrwyr a oedd yn byw mewn gofal maeth yn fwy tebygol o adrodd bodlonrwydd bywyd isel ac adrodd perthnasoedd o ansawdd is gyda'u hathrawon, ffrindiau a phartneriaid rhamantus.
- Roedd ansawdd perthnasoedd cymdeithasol a adroddwyd gan fyfyrwyr mewn gofal maeth yn gysylltiedig â'u defnydd o sylweddau a bodlonrwydd bywyd - adroddodd y rheiny â pherthnasoedd amddiffynnol gwell, iachus, ddefnydd sylweddau is a bodlonrwydd bywyd uwch, ac adroddodd y rheiny â pherthnasoedd o ansawdd is y gwrthwyneb.



@SHRNWales



SHRN@cardiff.ac.uk



SHRN.org.uk

Yr hyn a ganfuom...

Camddefnyddio sylweddau, lles a pherthnasoedd cymdeithasol myfyrwyr sy'n byw mewn gofal maeth

- O'u cymharu â myfyrwyr eraill, roedd y rheiny a oedd yn byw mewn gofal maeth yn fwy tebygol o ysmegu'n wythnosol neu'n amlach, wedi defnyddio canabis yn ddiweddar, yfed mewn pyliau, ac wedi defnyddio Mephedrone.
- Roedd myfyrwyr mewn gofal maeth hefyd yn fwy tebygol o adrodd bodlonrwydd bywyd is.
- Roedd myfyrwyr mewn gofal maeth yn fwy tebygol o fod wedi cael eu bwlio a dioddef trais ar ddê. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o gael perthnasoedd o ansawdd isel gydag athrawon, ac yn methu dibynnu ar eu ffrindiau.

Ansawdd perthnasoedd, camddefnyddio sylweddau a lles

- Ymhlith yr holl fyfyrwyr, roedd perthnasoedd o ansawdd isel gydag athrawon a phrofiad o drais ar ddê yn gysylltiedig â mwy o gamddefnyddio sylweddau. Roedd cael eu bwlio hefyd yn gysylltiedig â phob math

o gamddefnyddio sylweddau, ac eithrio canabis.

- Roedd gallu dibynnu ar ffrindiau yn gysylltiedig ag yfed mewn pyliau, a bodlonrwydd bywyd is hefyd.

Effaith ansawdd perthynas ar gamddefnyddio sylweddau a lles myfyrwyr mewn gofal maeth

- Roedd 20% i 30% o'r cysylltiadau rhwng byw mewn gofal maeth a defnyddio baco, alcohol a chanabis yn sgil perthnasoedd cymdeithasol o ansawdd isel.
- Roedd y cysylltiad rhwng byw mewn gofal maeth a bodlonrwydd bywyd isel yn cael ei leddfu gan bresenoldeb perthnasoedd o ansawdd da.



Materion i'w hystyried

Roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys nifer fawr o fyfyrwyr o ysgolion sy'n gynrychiadol o ysgolion uwchradd yng Nghymru yn ei chyfanrwydd.

Roedd y cwestiwn a ddefnyddiwyd i amlygu pobl ifanc a oedd yn byw mewn gofal yn eithaf bras, a gallai fod wedi arwain at rai pobl ifanc mewn mathau eraill o ofal, er enghraifft, gofal preswyl, yn cael eu colli.

Casglwyd yr holl ddata ar yr un amser (arolwg trawstoriadol), felly ni allwn ddweud â sicrwydd mai perthnasoedd cymdeithasol o ansawdd isel a oedd yn achosi'r gwahaniaethau a welwyd mewn myfyrwyr a oedd yn byw mewn gofal maeth.

Ariannwyd yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Beth mae hyn yn ei olygu i'm hysgol i?

- Gall polisiâu ac ymyriadau ysgol sy'n lleihau bwlio, hyrwyddo perthnasoedd rhamantus iach, a meithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng athrawon a myfyrwyr gynorthwyo myfyrwyr mewn gofal i ddatblygu perthnasoedd rhyngpersonol, sy'n gwella eu lles a helpu i atal camddefnyddio sylweddau.

Darllenwch y papur ymchwil yn llawn. Gallwch ei lawrlwytho'n rhad ac am ddim yma:

<http://bmjopen.bmj.com/content/7/2/e014198>

Long S et al (2017) Comparison of substance use, subjective well-being and interpersonal relationships among young people in foster care and private households: a cross sectional analysis of the School Health Research Network survey in Wales. BMJ Open 7:e014198